sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Adnewyddu trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol

## Datganiad

**DATGANIAD**

Dyddiad cyhoeddi: 6 Medi 2022

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 3

2. Cyd-destun 4

3. Ein penderfyniadau 6

4. Y broses o adnewyddu trwydded 10

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol yn cael eu dal gan Digital One Limited a Sound Digital Limited. Mae'r amlblecsau hyn yn cludo gwasanaethau Darlledu Sain Digidol (DAB) masnachol cenedlaethol. Daw eu trwyddedau i ben ym mis Tachwedd 2023 yn achos Digital One a mis Mawrth 2028 yn achos Sound Digital. Daeth Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol i rym ym mis Ebrill 2022 a oedd yn rhoi'r pŵer i Ofcom i adnewyddu'r trwyddedau hyn tan 31 Rhagfyr 2035.

1.2 Ar 9 Mehefin 2022 fe wnaethom ymgynghori ar ein cynigion o ran rhai penderfyniadau y mae angen i ni eu gwneud cyn adnewyddu'r trwyddedau hyn.[1] Mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â:

- cyflwyno cynllun technegol newydd;
- cyflwyno cynigion newydd ar gyfer hyrwyddo neu gynorthwyo'r defnydd o gyfarpar sy'n gallu derbyn y gwasanaeth; a
- gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, gosod canran o refeniw amlblecs (PMR) y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded ei thalu yn ystod cyfnod newydd y drwydded.

1.3 Ar ôl ystyried yr ymatebion yn llawn, rydyn ni'n nodi ein penderfyniadau yn y ddogfen hon. Mae hyn yn cynnwys y broses ar gyfer adnewyddu trwyddedau a'r amserlen y byddwn yn ei dilyn.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

Rydym wedi gwneud y penderfyniadau canlynol, ar ôl ystyried y safbwyntiau a gawsom gan randdeiliaid.

- Ni fyddwn yn gosod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth ychwanegol nac yn mynnu bod cynllun technegol newydd yn cael ei ddarparu wrth adnewyddu'r trwyddedau.
- Ni fyddwn yn mynnu bod y trwyddedeion yn darparu cynigion newydd o ran sut byddent yn hyrwyddo neu'n helpu gyda phrynu cyfarpar radio digidol.
- Ni fyddwn yn gosod cyfradd PMR ar gyfer tymor newydd y trwyddedau.
- Y dyddiad cau statudol i drwyddedai amlblecs radio wneud cais i adnewyddu trwydded yw 'dyddiad perthnasol' y drwydded dan sylw. Y dyddiad perthnasol ar gyfer trwydded Digital One fydd 15 Tachwedd 2022. Ar gyfer trwydded Sound Digital, 28 Chwefror 2027 fydd y dyddiad perthnasol. Caiff y trwyddedeion wneud cais i adnewyddu unrhyw bryd ar y dyddiadau hyn neu cyn hynny.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0029/238637/multiplex-licence-renewals-cym.pdf

# 2. Cyd-destun

2.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag adnewyddu'r drwydded ar gyfer dau o amlblecsau radio cenedlaethol y DU: y trwyddedau a ddelir gan Digital One Limited a Sound Digital Limited. Nid yw'r ymgynghoriad yn ymwneud ag amlblecs radio digidol cenedlaethol y BBC, sy'n cael ei reoleiddio o dan Siarter a Chytundeb y BBC, na thrwyddedau amlblecs radio lleol.

## Cymhwysedd ar gyfer adnewyddu

2.2 O dan adran 58 Deddf Darlledu 1996 ("y Ddeddf"), gellid adnewyddu trwydded amlblecs radio a roddwyd o fewn chwe blynedd i gychwyniad y Ddeddf (sy'n cyfateb i'r cyfnod rhwng 1 Hydref 1996 ac 1 Hydref 2002) ar un achlysur am gyfnod o ddeuddeg mlynedd, gan ddechrau ar y dyddiad y byddai'n dod i ben fel arall. Gellid adnewyddu trwydded a roddwyd o fewn deng mlynedd i gychwyniad y Ddeddf ond nid o fewn chwe blynedd (h.y. y cyfnod rhwng 2 Hydref 2002 ac 1 Hydref 2006) ar un achlysur am gyfnod o wyth mlynedd, gan ddechrau ar y dyddiad y byddai'n dod i ben fel arall.

2.3 Rhoddwyd y ddwy drwydded amlblecs radio cenedlaethol sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn ar adegau gwahanol.

- Rhoddwyd y drwydded a ddelir gan Digital One ym mis Tachwedd 1999 am gyfnod o ddeuddeg mlynedd a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2011. Fel y nodir uchod, o dan y Ddeddf roedd y drwydded yn gymwys i gael ei hadnewyddu am gyfnod pellach o ddeuddeg mlynedd (a dyna ddigwyddodd). Bydd cyfnod newydd y drwydded yn dod i ben ym mis Tachwedd 2023.
- Rhoddwyd trwydded Sound Digital ym mis Mawrth 2016. O dan y Ddeddf, bydd y drwydded yn dod i ben ym mis Mawrth 2028.

2.4 Tan eleni, nid oedd gan Ofcom y pŵer i adnewyddu'r trwyddedau hyn pan fyddant yn dod i ben. Yn achos Digital One, y rheswm am hyn yw bod yr unig adnewyddiad y mae'r drwydded yn gymwys ar ei gyfer eisoes wedi cael ei ddyfarnu ym mis Tachwedd 2011, ac nad oedd unrhyw adnewyddiad pellach ar gael. Yn achos Sound Digital, roedd hyn oherwydd nad oedd y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Ofcom adnewyddu trwydded a roddwyd dros ddeng mlynedd ar ôl cychwyniad y Ddeddf.

2.5 Ym mis Ionawr 2022, yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n gwneud newidiadau i adran 58 y Ddeddf fel y gall Ofcom adnewyddu'r ddwy drwydded am gyfnod newydd a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2035. Daeth y newidiadau i'r Ddeddf i rym ar 8 Ebrill 2022.[2]

[2] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2022/444/contents/made

## Ein cynigion ymgynghori

2.6 Cyn adnewyddu'r trwyddedau, fe wnaethom ymgynghori ar y broses y byddem yn ei dilyn. Gwnaethom gynigion mewn tri maes.

a) Bu i ni gynnig na fyddwn yn gofyn i'r trwyddedeion gyflwyno cynllun technegol newydd sy'n ategu'r un a gyflwynwyd fel rhan o'u cais gwreiddiol am y drwydded. Nid oeddem yn cynnig cyflwyno unrhyw ofynion ychwanegol o ran darpariaeth y byddai angen i'r trwyddedeion eu bodloni.

b) Bu i ni gynnig na fyddwn yn gofyn i'r trwyddedeion gyflwyno cynigion newydd ar gyfer hyrwyddo neu gynorthwyo'r defnydd o gyfarpar radio digidol, i ategu'r rhai a wnaed yn y ceisiadau gwreiddiol am y trwyddedau.

c) Bu i ni gynnig mai ein dewis ni fyddai peidio â gosod canran o refeniw amlblecs (PMR) y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded ei thalu yn ystod cyfnod newydd y drwydded.

2.7 Cawsom 8 o ymatebion i'n hymgynghoriad. Rydym yn nodi ein penderfyniadau yn yr adran nesaf, gan grynhoi safbwyntiau rhanddeiliaid a sut rydym wedi rhoi ystyriaeth iddynt wrth wneud ein penderfyniadau.

# 3. Ein penderfyniadau

3.1 Mae'r penderfyniadau a nodir yn yr adran hon yn ymwneud ag: a) darparu cynllun technegol ac unrhyw ofynion darpariaeth newydd; b) darparu cynllun ar gyfer hyrwyddo DAB; ac c) gosod canran o refeniw amlblecs (PMR) y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded ei thalu yn ystod cyfnod newydd y drwydded. Rydym yn ystyried pob un o'r meysydd hyn ar wahân.

## Cynllun technegol a gofynion darpariaeth

### Ein cynigion ymgynghori

3.2 Roeddem yn cynnig na fyddem yn gofyn am gynllun technegol newydd gan y trwyddedeion nac yn mynnu bod y trwyddedeion yn bodloni unrhyw ofynion darpariaeth newydd. Roedd ein rhesymeg fel a ganlyn:

- Mae DAB yn llwyfan gymharol aeddfed gyda chyfran sylweddol o wrandawyr radio. Felly, nid oes angen mwyach i sicrhau rhwydwaith trosglwyddyddion ar y raddfa sy'n angenrheidiol i sicrhau llwyddiant y platfform.
- Mae'r ymrwymiadau darpariaeth gwreiddiol gan Digital One a Sound Digital wedi cael eu cyflawni, ac mae'r ddau amlblecs ar gael yn eang iawn ar draws y DU.
- Er nad yw'r ddau amlblecs yn cyrraedd y DU gyfan, mae ffyrdd eraill o gyrchu radio digidol na thrwy DAB.
- Byddai gan unrhyw benderfyniad i ymestyn darpariaeth radio digidol oblygiadau cost i'r gweithredwyr amlblecs, a allai effeithio ar rannau eraill o'r gadwyn gwerth radio.

3.3 Yn sgil yr ystyriaethau hyn, nid ydym yn cynnig gosod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth ychwanegol na mynnu bod cynllun technegol newydd yn cael ei ddarparu wrth adnewyddu'r trwyddedau.

### Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid

3.4 Roedd pawb ond un ymatebydd yn cytuno â'n cynigion. Dywedodd Arqiva ei fod yn "cefnogi" gwaith i ganfod gwelliannau ychwanegol posib i ddarpariaeth DAB.[3] Dywedodd Boom Radio fod darpariaeth is SDL yn golygu ei fod yn cynnig ffioedd is, a gallai hynny gael ei beryglu pe bai darpariaeth ehangach yn dod yn orfodol.[4]

3.5 Roedd Children's Radio UK, Sunrise Radio London a Gwasanaeth Darlledu Lluoedd Arfog Prydain (BFBS) yn cytuno â'n hymagwedd. Gwnaethant ddadlau hefyd y dylai Ofcom gyflwyno gofyniad i'r rheini sy'n dal trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol ymgynghori

[3]Ymateb Arqiva i'r ymgynghoriad.
[4]Ymateb Boom Radio i'r ymgynghoriad.

â'u darparwyr gwasanaeth ynghylch eu cynlluniau adeiladu rhwydwaith a chael eu cymeradwyaeth cyn bwrw ymlaen.[5]

3.6 Roedd un ymatebydd unigol yn anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig, gan ddweud bod "angen 'llenwi bylchau' a chynyddu pŵer o hyd," yn enwedig ar gyfer Digital One.[6]

### Ein penderfyniad

3.7 Nid yw'r naill amlblecs na'r llall yn cynnig darpariaeth lawn i'r DU gyfan fel y nodwyd gan ymatebydd unigol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyffredinol yn cefnogi'r farn a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad nad oes sail gref dros fynnu bod trwyddedeion yn ehangu'r ddarpariaeth drwy ofyniad wrth adnewyddu trwyddedau. Ar ben hynny, fel yr awgrymwyd gan Boom Radio, efallai y bydd anfanteision i'r sector radio o'i gwneud yn ofynnol ehangu'r ddarpariaeth.

3.8 Rydym yn cydnabod y cynnig gan Children's Radio UK, Sunrise Radio a BFBS, ond nid yw'n rhan o gwmpas y materion rydym yn ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd.

3.9 Gan fod rhanddeiliaid yn cytuno'n fras â'n hymagwedd, byddwn yn rhoi ein cynnig ymgynghori ar waith.

**Rydym wedi penderfynu na fyddwn yn gosod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth ychwanegol nac yn mynnu bod cynllun technegol newydd yn cael ei ddarparu wrth adnewyddu'r trwyddedau.**

## Hyrwyddo cyfarpar radio digidol

### Ein cynigion ymgynghori

3.10 Bu i ni gynnig na fyddem yn gofyn i'r trwyddedeion gyflwyno cynigion newydd o ran sut byddent yn hyrwyddo pryniant neu fynediad at gyfarpar radio digidol fel gofyniad ar gyfer adnewyddu'r trwyddedau. Roedd ein rhesymeg fel a ganlyn.

- Mae DAB yn llwyfan gymharol aeddfed erbyn hyn. Mae wedi tyfu o ran y nifer sy'n gwrando a nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cludo ers ei lansio. Felly, mae'r angen am hyrwyddo'r defnydd o gyfarpar yn llawer gwannach na phan lansiwyd radio digidol.
- Nid yw'n glir y byddai cynllun i hyrwyddo neu helpu i ddefnyddio cyfarpar radio digidol yn gwrthdroi'r arafu yn nhwf gwerthiant setiau DAB ar gyfer y cartref, nac mai gofyniad trwydded ar y rhai sy'n dal trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol yw'r ffordd orau o gyflawni hyn.[7]

---

[5] Ymatebion Children's Radio UK, Sunrise Radio London a Gwasanaeth Darlledu Lluoedd Arfog Prydain i'r ymgynghoriad.
[6] Ymateb Herbert, J i'r ymgynghoriad.
[7] Rydym hefyd yn nodi, er bod twf gwerthiant derbynyddion DAB ar gyfer y cartref yn arafu, efallai, mae offer DAB mewn sefyllfa dda o ran cerbydau. Dywedodd adolygiad radio a sain digidol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod "pob car newydd bron" yn cynnwys radio DAB/DAB+ fel mater o drefn. Gweler www.gov.uk/government/publications/digital-radio-and-audio-review/digital-radio-and-audio-review#chapter-4----the-future-of-radio-listening-to-devices-used-in-cars-and-commercial-vehicles

- Hyd yn oed petai angen hyrwyddo'r defnydd o gyfarpar radio digidol, nid yw'n amlwg ei bod yn gymesur cymhwyso gofynion i wneud hynny i'r rhai sy'n dal trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol yn benodol.

3.11 O ystyried hyn, bu i ni gynnig i beidio â gofyn i'r trwyddedeion gyflwyno cynigion newydd o ran sut byddent yn hyrwyddo pryniant neu fynediad at gyfarpar radio digidol fel gofyniad ar gyfer adnewyddu trwyddedau.

## Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid

3.12 Nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig. Dywedodd Boom Radio nad yw gweithredwyr amlblecs yn elwa o fwy o gynulleidfaoedd, sy'n golygu bod eu marchnata'n debygol o gael ei dargedu'n wael.[8] Fodd bynnag, dywedodd un o'r trwyddedigion amlblecs, Arqiva, ei bod er ei fudd ef ei hun, yn ogystal â budd y diwydiant radio, i hyrwyddo a chefnogi'r llwyfan DAB. Dywedodd felly nad oes angen rhwymedigaeth trwydded i hyrwyddo'r llwyfan.[9]

## Ein penderfyniad

3.13 Gan fod rhanddeiliaid yn cytuno'n fras â'n hymagwedd, byddwn yn rhoi ein cynnig ymgynghori ar waith.

> **Rydym wedi penderfynu na fyddwn yn gosod unrhyw rwymedigaethau newydd ar y rhai sy'n dal trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol i hyrwyddo'r platfform radio digidol DAB fel rhan o'r broses o adnewyddu trwyddedau.**

# Canran o refeniw amlblecs (PMR)

## Ein cynnig

3.14 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth benodol i Ofcom, gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, bennu PMR i'w thalu gan ddeiliad trwydded amlblecs radio cenedlaethol ar gyfer pob un o'i gyfnodau cyfrifyddu. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol fynnu bod Ofcom yn gosod PMR benodol, neu'n gwneud Gorchymyn yn nodi na fydd unrhyw gyfradd (h.y. sero) yn cael ei gosod. Hyd yma, nid oes cyfradd PMR wedi'i gosod.

3.15 Diffinnir refeniw amlblecs yn adran 56 y Ddeddf fel yr incwm y mae trwyddedai amlblecs radio cenedlaethol yn ei gael o gludo gwasanaethau rhaglenni ar ei amlblecs, a'r incwm y mae darparwr gwasanaeth rhaglenni ar yr amlblecs yn ei gael o werthu hysbysebion a/neu nawdd.

[8] Ymateb Boom Radio i'r ymgynghoriad.
[9] Ymateb Arqiva i'r ymgynghoriad.

3.16 Bu i ni gynnig y byddai'n well gennym beidio â gosod cyfradd PMR, yn amodol ar farn yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid

3.17 Nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig. Dywedodd Children's Radio UK na fyddai cyflwyno cyfradd PMR er budd darparwyr gwasanaeth a gwrandawyr.[10] Dywedodd Arqiva y gallai costau uwch gael eu trosglwyddo i gwsmeriaid (h.y. gorsafoedd radio sy'n cael eu cludo ar yr amlblecsau) naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol.[11]

## Ein penderfyniad

3.18 Fe wnaethom hysbysu'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ein bod yn ffafrio peidio â gosod cyfradd PMR a bu i'r Ysgrifennydd Gwladol gytuno â'r safbwynt hwn. Gan nad yw barn yr Ysgrifennydd Gwladol yn wahanol i'n safbwynt arfaethedig ac nad oedd yr un ymatebydd yn anghytuno ag ef, byddwn yn gweithredu ein cynnig yn yr ymgynghoriad am y rhesymau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

**Rydym wedi penderfynu peidio â gosod cyfradd PMR ar gyfer cyfnod newydd y trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol.**

[10] Ymateb Children's Radio UK i'r ymgynghoriad.
[11] Ymateb Arqiva i'r ymgynghoriad.

# 4. Y broses o adnewyddu trwydded

4.1 Y dyddiad cau statudol i drwyddedai amlblecs radio wneud cais i adnewyddu trwydded yw ‘dyddiad perthnasol’ y drwydded dan sylw. Mae’r ‘dyddiad perthnasol’ wedi’i ddiffinio (mewn statud) fel y dyddiad erbyn pryd, pe na bai’r drwydded yn cael ei hadnewyddu, y byddai angen i Ofcom gyhoeddi hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am y drwydded i’w gwneud hi’n bosib rhoi trwydded newydd o’r dyddiad y daw’r drwydded bresennol i ben. Y dyddiad perthnasol ar gyfer trwydded Digital One fydd 15 Tachwedd 2022. Ar gyfer trwydded Sound Digital, 28 Chwefror 2027 fydd y dyddiad perthnasol. Caiff y trwyddedeion wneud cais i adnewyddu unrhyw bryd ar y dyddiadau hyn neu cyn hynny.

4.2 Dylid cyflwyno cais i adnewyddu yn ysgrifenedig a’i lofnodi a’i ddyddio. Nid yw cais i adnewyddu yn rhwymol, gan y caiff ymgeisydd dynnu ei gais adnewyddu yn ôl hyd at y pwynt y bydd Ofcom yn gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid adnewyddu’r drwydded.

4.3 Yr unig sail y byddem yn gallu gwrthod adnewyddu trwydded amlblecs radio cenedlaethol arni yw os yw’r trwyddedai wedi methu â chydymffurfio â’r amodau yn ei drwydded bresennol, neu os ydym yn credu na fydd yn gallu cydymffurfio â’r amodau yn ei drwydded newydd.

4.4 Ar ôl i ni dderbyn cais am adnewyddu trwydded (gan dybio bod y trwyddedeion presennol yn dewis ailymgeisio) byddwn yn ceisio dod i benderfyniad cyn gynted â phosib.